LEG-22-2000(min)

**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

**Dyddiad:** 17 Hydref 2000
**Amser:** 9.00 a.m.
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Dai Lloyd, Cadeirydd Gweithredol | Plaid Cymru) |
| Pauline Jarman | Plaid Cymru) |
| Hugh Lewis | Llafur) |
| Lynne Neagle | Llafur) |
| Owen John Thomas | Plaid Cymru) |
| Karen Sinclair | Llafur) |
| **Swyddogion** | |
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Dylan Hughes | Ymgynghorydd Cyfreithiol Cynorthwyol |
| Adrian Green | Clerc y Pwyllgor |
| Julie Owen | Clerc Cynorthwyol y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Nick Bourne a John Marek

**Enwebu Cadeirydd Dros Dro**
Dywedodd y Clerc y byddai angen penodi Cadeirydd dros dro yn sgîl penodi Mike German i'r Cabinet a gofynnodd am enwebiadau. Enwebwyd Mr Dai Lloyd a chymerodd y Gadeiryddiaeth.

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod blaenorol a materion sy'n codi: LEG-21-2000(min)**
1.1. Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2000.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**
2.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau eu bod wedi cymeradwyo ymateb drafft i'w anfon at y Dirprwy Lywydd yngln â'r diffyg gweithdrefnau ffurfiol ar gyfer tynnu sylw arbennig y Cynulliad at y ddeddfwriaeth a wnaed o dan y weithdrefn frys pan ganfu'r Pwyllgor fod y ddeddfwriaeth yn adroddadwy o dan RhS11.5 yn y cyfarfod blaenorol (17 Medi). Dywedodd y Cadeirydd y

cafodd y llythyr ei anfon at y Dirprwy Lywydd ond ei fod yn parhau i ddisgwyl ateb ganddo.

**Eitem 3: Ymatebion i Ddeddfwriaeth y Pwyllgor**

**LC115: Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Symiau y Gellir eu Codi) (Diwygio) (Cymru) 2000**
3.1 Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn ymateb gan y Llywydd i lythyr Mr German dyddiedig 5 Gorffennaf yngln â phroblemau a gafwyd wrth gyhoeddi deddfwriaeth y Cynulliad. Cododd y broblem pan ganfuwyd na chafodd y rheoliadau diwygiol a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 28 Mawrth eu cyhoeddi. Yn ei ymateb dywedodd y Llywydd fod Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol yn ymwybodol o’r broblem a’u bod yn monitro’r sefyllfa.

3.2 Eglurodd yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol y gallai problem godi pe na byddai’r rheini yr effeithiwyd arnynt gan y ddeddfwriaeth yn ymwybodol o’r rheolau a wnaed ac a ddaeth i rym gan na chawsant eu cyhoeddi naill ai mewn copi caled neu ar y fewnrwyd. Lluniwyd rhestr o reolau gan yr Ymgynghorwyr Cyfreithiol a gyhoeddwyd ers mis Awst a oedd hefyd yn rhoi manylion yngln â dyddiadau’r rheolau a "wnaed" neu a "ddaeth i rym". Dangosodd y rhestr mai dim ond pedair rheol o’r 27 o reolau a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod hwn cyn iddynt ddod i rym a gyhoeddwyd. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Llywydd eto gan egluro eu pryderon ac amgáu’r rhestr. **Cam gweithredu: Clerc**

**Eitem 4: Gorchmynion y Cynulliad i’w Hystyried**

**LC101 – Gorchymyn Pysgota Môr (Gorfodi Mesurau Rheoli’r Gymuned) (Cymru)**
4.1 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i’r pwyllgor.

4.2 Eglurodd fod y Pwyllgor wedi ystyried y Gorchymyn yn flaenorol ar 6 Mehefin 2000 a’i fod wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cynulliad (Carwyn Jones) yngln â materion oedd yn adroddadwy o dan Rheol Sefydlog 11.5. Materion trefniadol oedd y rhain yn yr ystyr na chyhoeddwyd y Gorchymyn gan y Cynulliad cyn iddo ddod i rym. Golygai hyn fod y Cynulliad yn dechnegol yn torri Adran 2(1) o Ddeddf Cyhoeddiadau Statudol 1946. Yn ogystal, ni chyflwynwyd y Gorchymyn i’r Pwyllgor cyn gynted â phosibl ar ôl ei wneud ac o’r herwydd, torrwyd Rheol Sefydlog 22.26.

4.3 Yn ei ymateb (dyddiedig 28 Gorffennaf) cydnabu Carwyn Jones yr oedi a nododd bod mesurau’n cael eu cymryd i wella gweithdrefnau mewnol ac allanol. Cytunodd y Pwyllgor i adrodd y dylai’r Cynulliad dalu sylw arbennig i’r Gorchymyn hwn ar sail a nodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5(v).

4.4 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y gorchymyn hwn fel LC101 (Adroddiad).

**LC125 – Rheoliadau Addysg (Gwahardd o’r Ysgol) (Cyfnodau Rhagnodedig) (Diwygio)**

**(Cymru) 2000**
4.5 Cyflwynodd Mr Hughes ei adroddiad i’r Pwyllgor. Datganwyd diddordeb gan Mr Lloyd a Mr Thomas fel Llywodraethwyr Ysgol a datganodd Ms Jarman ddiddordeb fel aelod o’r Awdurdod Addysg Lleol ac fel Llywodraethwr Ysgol.

4.6 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i dalu sylw arbennig i’r gorchmynion ar unrhyw sail a ddynodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor rai sylwadau cyffredinol yr oeddynt o’r farn y dylid eu cofnodi yn eu Hadroddiad.

4.7 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y rheoliad drafft hwn fel LC125 (Adroddiad).

**LC126 – Rheoliadau Lywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000**
4.8 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i’r Pwyllgor. Datganodd Mr Lloyd a Mr Thomas ddiddordebau fel Llywodraethwyr Ysgol a datganodd Ms Jarman ddiddordeb fel aelod o’r Awdurdod Addysg Lleol ac fel Llywodraethwr Ysgol.

4.9 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i dalu sylw arbennig i’r rheol ar unrhyw sail a ddynodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor rai sylwadau cyffredinol yr oeddynt o’r farn y dylid eu cofnodi yn eu Hadroddiad.

4.10 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y rheoliadau drafft hyn fel LC126 (Adroddiad).

**LC127 – Gorchymyn Deddf Iechyd 1999 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2000**
4.11 Cyflwynodd Mr Turnbull ei adroddiad i’r Pwyllgor. Datganodd Mr Lloyd ddiddordebau fel Cynghorydd Sir ac fel Meddyg Teulu a datganodd Ms Jarman ei diddordeb fel aelod o’r Awdurdod Lleol.

4.12 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i dalu sylw arbennig i’r gorchymyn ar unrhyw sail a ddynodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor rai sylwadau cyffredinol yr oedd o’r farn y dylid eu cofnodi yn ei Adroddiad.

4.13 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y rheoliad drafft hwn fel LC127 (Adroddiad).

**LC128 – Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth Cyrff Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Awdurdodau Lleol (Cymru) 2000**
4.14 Cyflwynodd Mr Hughes ei adroddiad i’r Pwyllgor. Datganodd Ms Jarman ddiddordeb fel aelod o’r Awdurdod Lleol a datganodd Mr Lloyd ddiddordebau fel Cynghorydd Sir ac fel Meddyg Teulu.

4.15 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i dalu sylw arbennig i’r rheol ar unrhyw sail a ddynodwyd yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor rai sylwadau cyffredinol yr oedd o’r farn y dylid eu cofnodi yn ei Hadroddiad.

4.16 Atodir adroddiad y Pwyllgor i’r Cynulliad ar y rheoliad drafft hwn fel LC128 (Adroddiad).

**Eitem 5 – Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Deddfau**
5.1 Cafodd yr Adroddiad Blynyddol ei anfon i’r aelodau. Cytunwyd y dylid nodi’r Adroddiad a’i ystyried ymhellach yn ystod y cyfarfod nesaf.

**Eitem 6 – Unrhyw Fusnes Arall a Dyddiad y cyfarfod nesaf**
6.1 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 31 Hydref 2000.

**Adroddiadau a Atodir**

- **LC101**
- **LC125**
- **LC126**
- **LC127**
- **LC128**